Inspection, Audit and Regulatory bodies launch website/Cyrff Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yn Lansio Gwefan

INSPECTION, AUDIT AND REGULATORY BODIES LAUNCH WEBSITE

PRESS RELEASE – Immediate release

The four main inspection, audit and regulatory bodies in Wales are launching a joint website today

Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW), Estyn, Healthcare Inspectorate Wales (HIW) and the Wales Audit Office (WAO) are launching the website Inspection Wales, to help members of the public and the organisations they audit and review to have a better understanding of how they are working together.

The website has been set up following the strategic agreement that the four inspectorates launched in March 2011 to boost joint working arrangements.

The website aims to be the single point of contact for citizens who wish to find out more about how inspection, audit and regulatory bodies are working together to strengthen public assurance in Wales.

Visitors to the website will be able to access links to joint reports published by the bodies, including the report published last week by CSSIW and Her Majesty's Inspectorate of Constabulary (HMIC), along with Estyn, HIW and Her Majesty's Inspectorate of Probation (HMI Probation) on "Joint Inspection of local safeguarding children's boards in Wales".

The website will continue to be developed jointly by the project staff who have been appointed to support the development of joint working between the four organisations, and the communication teams from each of the organisations.

A spokesperson for the four organisations said:

"The launch of the Inspection Wales website, builds on the commitment made by the four inspection, audit and regulatory bodies in Wales to boost joint working arrangements. It provides citizens with a source of information that explains how and what the organisations are working on together, and how their collaborative approach is helping to improve public services in Wales."

Notes to Editors:

About CSSIW

Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW) encourages the improvement of social care, early years and social services by regulating, inspecting, reviewing and providing professional advice to Ministers and policy makers. We carry out our functions on behalf of Welsh Ministers, and although we are part of the Local Government and Communities Directorate within the Welsh Government, there are a number of safeguards in place to ensure our operational independence. Our Vision and Values are geared towards ensuring that service users' experiences are at the heart of our work. Our duty is to assure the citizens of Wales of the quality and safety of social care services through our inspections. The responsibility for improving services rests with those who commission and deliver them within the requirements of the legislation and government policy. CSSIW inspections provide accountability for the public and learning for stakeholders through exemplars and sustained service improvements.
For further information please visit our website Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW)

About Estyn

Estyn is the Education and Training Inspectorate for Wales. Our aim is to achieve excellence for all in learning in Wales. We do this by providing an independent, high-quality inspection and advice service. Our vision is to be recognised through the expertise of our staff as an authoritative voice on learning in Wales. We are independent from, but funded by the Welsh Government (under Section 104 of the Government of Wales Act 1998).

For further information please visit our website www.estyn.gov.uk

About HIW

Healthcare Inspectorate Wales is the independent inspectorate and regulator of all healthcare in Wales. HIW's primary focus is on:

- Making a significant contribution to improving the safety and quality of healthcare services in Wales.
- Improving citizens' experience of healthcare in Wales whether as a patient, service user, carer, relative or employee.
- Strengthening the voice of patients and the public in the way health services are reviewed.
- Ensuring that timely, useful, accessible and relevant information about the safety and quality of healthcare in Wales is made available to all.

For further information please visit our website www.hiw.org.uk

About The Wales Audit Office

The Wales Audit Office is independent of government and is responsible for the annual audit

of some £20 billion of annual public expenditure.

- Its mission is to promote improvement, so that people in Wales benefit from accountable, well-managed public services that offer the best possible value for money. It is also committed to identify and spreading good practice across the Welsh public sector.

- For further information please visit our website www.wao.gov.uk

- Visit Inspection Wales website at www.inspectionwales.com

- To access Working Collaboratively to Support Improvement a Strategic Agreement between CSSIW, Estyn, HIW and Wales Audit Office click here

- To access Developing Our Work Together in a Climate of Change, a joint paper on inspection, audit and regulation in Wales developed by CSSIW, Estyn, HIW and Wales Audit Office click here

Ends

For more information please contact Laura Young on 029 2032 0519 or email **Laura.Young@wao.gov.uk**

CYRFF AROLYGU, ARCHWILIO A RHEOLEIDDIO YN LANSIO GWEFAN

DATGANIAD I'R WASG - I'w ryddhau ar unwaith

Mae'r pedwar prif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru yn lansio gwefan ar y cyd heddiw

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn lansio'r wefan Arolygu Cymru, er mwyn helpu aelodau o'r cyhoedd a'r sefydliadau y maent yn eu harchwilio a'u hadolygu i ddeall yn well sut maent yn cydweithio â'i gilydd.

Sefydlwyd y wefan yn dilyn y cytundeb strategol a lansiwyd gan y pedair arolygiaeth ym mis Mawrth 2011 i roi hwb i drefniadau cydweithio.

Y nod yw y bydd y wefan yn un pwynt cyswllt i ddinasyddion sydd am wybod mwy am sut mae cyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio yn cydweithio i ddarparu mwy o sicrwydd cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd y rhai sy'n ymweld â'r wefan yn gallu dilyn dolenni i adroddiadau ar y cyd a gyhoeddwyd gan y cyrff, gan gynnwys yr adroddiad a gyhoeddwyd wythnos ddiwethaf gan Estyn, AGGCC, AGIC, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM), sef

"Joint Inspection of local safeguarding children's boards in Wales".

Caiff y wefan ei datblygu'n barhaus ar y cyd gan staff y prosiect a benodwyd i helpu i ddatblygu trefniadau cydweithio rhwng y pedwar sefydliad, a thimau cyfathrebu pob un o'r sefydliadau.

Dywedodd llefarydd ar ran y pedwar sefydliad:

"Mae lansiad gwefan Arolygu Cymru yn adeiladu ar ymrwymiad y pedwar corff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru i roi hwb i drefniadau cydweithio. Mae'n ffynhonnell o wybodaeth i ddinasyddion sy'n egluro sut mae'r sefydliadau yn cydweithio, beth maent yn cydweithio arno, a sut mae eu cydweithio yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru."

Nodiadau i Olygyddion:

Ynghylch AGGCC

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn annog y gwaith o wella gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol drwy reoleiddio, arolygu, adolygu a rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisi. Cyflawnwn ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, ac er ein bod yn rhan o Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru, mae nifer o fesurau diogelwch ar waith i sicrhau ein hannibyniaeth weithredol. Nod ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd yw sicrhau bod profiadau defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd ein gwaith. Ein dyletswydd yw rhoi sicrwydd i ddinasyddion Cymru o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy ein harolygiadau. Y sawl sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau o fewn gofynion y ddeddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am wella'r gwasanaethau hynny. Mae arolygiadau AGGCC yn rhoi atebolrwydd i'r cyhoedd a dysgu i randdeiliaid drwy enghreifftiau a gwelliannau parhaus i wasanaethau.
Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan

Ynghylch Estyn

Estyn yw Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru. Ein nod yw sicrhau rhagoriaeth i bawb ym maes dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel. Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod drwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru. Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ond cawn ein hariannu ganddi (o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998).

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan

Ynghylch AGIC

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru. Prif ffocws AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad sylweddol at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau

gofal iechyd yng Nghymru.

- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd o ran y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, defnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan

Ynghylch Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn gyfrifol am gynnal archwiliad blynyddol o tua £20 biliwn o wariant cyhoeddus blynyddol.

- Ei nod yw hyrwyddo gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

- Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

Ewch i wefan Arolygu Cymru yn www.arolygucymru.com

I weld Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau - Cytundeb Strategol rhwng AGGCC, Estyn, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru, cliciwch yma

I weld Datblygu Ein Gwaith Gyda'n Gilydd mewn Hinsawdd o Newid, papur ar arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru a ddatblygwyd ar y cyd gan AGGCC, Estyn, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru, cliciwch yma

Diwedd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Laura Young ar 029 2032 0519 neu anfonwch e-bost at **Laura.Young@wao.gov.uk**